# Parciau cyhoeddus a mannau gwyrdd trefol



Gwirfoddolwyr Royal Caledonian Horticulture Society, Parc Saughton, Caeredin.

Mae’r Loteri Genedlaethol wedi buddsoddi mwy na £950miliwn mewn adfywio dros 900 o barciau cyhoeddus, gan helpu cymunedau a byd natur i ffynnu.

Yn ogystal â darparu gwerddonau gwyrdd mewn cymdogaethau trefol a chartref i fywyd gwyllt, mae parciau a mannau gwyrdd yn adnodd cyhoeddus hanfodol, sydd o fudd i fywydau, llesiant ac iechyd pobl.

Rydym am ariannu prosiectau sy’n cysylltu mwy o bobl â byd natur, a helpu i roi hwb i fioamrywiaeth ac adferiad byd natur.

Mae ein Rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar agor, yn darparu grantiau rhwng £10,000 a £10miliwn i gefnogi prosiectau treftadaeth ar draws y DU.

## Gallai ein hariannu eich helpu i:

- adfer ac adfywio parc cyhoeddus, mynwent neu ardd hanesyddol sydd ar agor i'r cyhoedd
- gwella mynediad a dealltwriaeth o barc neu fan gwyrdd hanesyddol
- gwella cysylltiadau pobl â byd natur
- helpu gwireddu manteision mannau gwyrdd cyhoeddus sy’n cael eu rheoli a’u cynnal a chadw'n dda ar gyfer cymunedau, yr economi ac iechyd y cyhoedd

- gwella cynefinoedd a helpu byd natur i ymadfer
- adeiladu ymdeimlad o falchder mewn lle trwy adfywio mannau gwyrdd cymunedol

## Pethau allweddol i'w darllen

- ein canllaw i brosiectau tirweddau a byd natur
- astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd o Future Parks Accelerator

## Archwiliwch ein buddsoddiad

Dysgwch fwy am ein hymrwymiad i barciau trefol a mannau gwyrdd cyhoeddus yn y DU.

Expand All accordions

## Trefi a Dinasoedd Natur

Nid oes gan filiynau o bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol fynediad hanfodol at fyd natur a mannau gwyrdd. Bydd ein rhaglen bartneriaeth newydd, Trefi a Dinasoedd Natur yn mynd i'r afael â hyn drwy helpu awdurdodau lleol i gydweithio â chymunedau i ddod â byd natur i bob cymdogaeth er mwyn i bawb ei fwynhau. Ochr yn ochr ag adeiladu rhwydweithiau cryfion, rhannu arbenigedd ac achrediad, rydym wedi cyhoeddi £15m o ariannu ar gyfer parciau a mannau gwyrdd trefol.

Expand All accordions

## Future Parks Accelerator

Cefnogodd Future Parks Accelerator (FPA) wyth awdurdod lleol i ddatblygu atebion uchelgeisiol a chynaliadwy i ddiogelu, gwella a gwneud mwy o ddefnydd o barciau cyhoeddus a mannau gwyrdd trefol.

Darganfod mwy am y rhaglen a hefyd awgrymiadau a chyngor ar reoli mannau gwyrdd mewn lleoedd trefol.

Ewch i wefan FPA am fwy fyth o adnoddau.

Expand All accordions

## Rethinking Parks

Rhaglen £1miliwn ar y cyd gwerth rhwng Nesta, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Gymunedol, a lansiwyd yn 2013. Ei nod oedd ariannu a chefnogi arloeswyr parciau i ddatblygu, gweithredu a lledaenu dulliau newydd o gynnal a manteisio i'r eithaf ar barciau cyhoeddus yn y DU.

Mae dros 20 o brosiectau arloesi bellach wedi'u cyflwyno gan gefnogi rheolwyr parciau, grwpiau cymunedol ac elusennau eraill i ailfeddwl sut y gallai parciau trefol a mannau gwyrdd gael eu rheoli a'u hariannu yn y dyfodol.

Darllen casgliad o ysgrifau am Rethinking Parks, a gynhyrchwyd gan Nesta ar ôl diwedd y rhaglen ym mis Hydref 2020. Gallwch hefyd ddarganfod cyfres o ddiweddariadau prosiect craff a phecyn cymorth a grëwyd gan Nesta, sy'n cofnodi profiadau dysgu'r prosiectau a fu'n ymwneud â'r rhaglen.

Expand All accordions

## Lle i Ffynnu

Mae'r adroddiad Lle i Ffynnu, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn adolygiad cyflym o dystiolaeth o'r buddion y mae parciau a mannau gwyrdd yn eu cynnig i bobl a chymunedau.

Dyma ei argymhellion allweddol:

- Dylid ystyried parciau fel seilwaith cymdeithasol yn ogystal â ffisegol.
- Dylid rheoli parciau a mannau gwyrdd i gefnogi iechyd a lles.
- Dylid rheoli parciau a mannau gwyrdd i annog cysylltiadau â byd natur.

Dyma Paul Farmer, Prif Weithredwr yr elusen iechyd meddwl Mind, yn myfyrio ar sut y gall mannau gwyrdd wella lles ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.



## ddordeb hefyd mewn ...

Parc Pearson yn Kingston upon Hull.



### d ein trefi a’n dinasoedd

Parks for Health project in Camden and Islington in tip four. Credit: Islington Council



### adwy yn eich ardal chi

Wildflower meadow in Queen’s Park. Picture © BCP Council/ Mark Holloway. © BCP Council/ Mark Holloway

### How our pioneering programme showed what a vital public resource parks are